

At: Aelodau Cyngor Ymgynghorol  
Sefydlog ar Addysg Grefyddol  
(CYSAG)

Dyddiad: 3 Chwefror 2017

Deialu 01824 712568

Union:

e-bost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Syr / Fadam

Fe'ch gwahoddir i ddod i gyfarfod o'r **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)** am **10.00 am, DYDD LLUN, 13 CHWFROR 2017** yn **SIAMBR Y CYNGOR, TY RUSSELL, FFORDD CHURTON, Y RHYL.**

Yn gywir

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau cyfreithiol a Democrataidd

## **AGENDA**

### **MYFYRDOD TAWEL**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 DATGAN CYSYLLTIAD** (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd yn un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### **3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

#### **4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 10)

Cymeradwyo a llofnodi bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2016 yn gofnod cywir.

#### **5 DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGU** (Tudalennau 11 - 16)

Derbyn dadansoddiad o Adroddiad Arolygon diweddar gan Estyn.

#### **6 CANLYNIADAU ARHOLIADAU 2016** (Tudalennau 17 - 28)

Ystyried adroddiad yn dadansoddi canlyniadau arholiadau 2016.

**7 STATWS Y MAES LLAFUR CYTUNEDIG** (Tudalennau 29 - 30)

Trafod y cyngor y dylai ysgolion ei dderbyn ynglŷn â statws y maes llafur cytunedig o safbwynt y Bagloriaeth Cymru newydd a'r newidiadau i Gwricwlwm Cymru.

**8 Y DIWEDDARAF AM CYSAG A CHYDWEITHREDIAD O YSGOL I YSGOL**  
(Tudalennau 31 - 32)

Hybu cynrychiolaeth athrawon drwy gydweithrediad o ysgol i ysgol.

**9 CCYSAGC** (Tudalennau 33 - 42)

- i. Derbyn cofnodion cyfarfod diwethaf y Gymdeithas
- ii. Cytuno ar bresenoldeb i gyfarfod nesaf CCYSAGC ym Mrynbuga, Sir Fynwy ar 3 Mawrth 2017.

**10 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 10.00am ddydd Mercher 5 Gorffennaf 2017 yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN

**AELODAETH**

**Cynghorwyr yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Bill Tasker  
Arwel Roberts  
Joe Welch

Ann Davies  
Gwyneth Kensler

**Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol**

Mr. Simon Cameron  
Mr. Dominic Oakes  
Y Parch. B H Jones  
Y Parch. Martin Evans-Jones

Mary Ludenbach  
Mrs C Thomas  
Is-Gapten Sian Radford

**Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon**

Mrs C Harmsworth

Mrs Maureen Phillips

**Aelodau Cyfetholedig**

T. Ap Siôn

**COPIAU AT:**

Bob Cynghorydd er gwybodaeth  
Y Wasg a Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhwch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gyhaliwyd yn YSGOL UWCHRADD Y RHYL , Dydd Mercher, 19 Hydref 2016 am 10.00 am.

### **YN BRESENNOL**

#### **Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Y Cynghorwyr Joe Welch and Dewi Owens

#### **Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol**

Mr. Simon Cameron, Mr. Dominic Oakes, Rev. B H Jones, Rev. Martin Evans-Jones a Ms S Harris

#### **Aelodau Cyfetholedig**

Ms. Ali Ballantyne

### **HEFYD YN BRESENNOL**

Cynghorydd Herio GwE (PL), Andrea Taylor, GwE a'r Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Y Cynghorydd Arwel Roberts a/ac Ann Davies

#### **2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni ddatganwyd cysylltiad.

#### **3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Dim Materion Bryn.

#### **4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion pwyllgor Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2016 (wedi'u cylchredeg yn flaenorol).

Materion sy'n codi – Tudalen 9 – Eitem 5 Dadansoddi Adroddiadau Archwiliadau Estyn.

Cadarnhaodd Ymgynghorydd Herio GwE bod llythyrau llongyfarch wedi'u gyrru i'r ysgolion perthnasol.

**PENDERFYNWYD** y dylid, yn amodol ar yr uchod, dderbyn a chymeradwyo Cofnodion y cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2016 fel cofnod cywir.

## 5 YSGOLION ARLOESOL A'R CWRICWLWM NEWYDD

Cyflwynwyd Andrea Taylor, GwE, a wahoddwyd i roi cyflwyniad i Aelodau CYSAG ar Ysgolion Arloesol a'r Cwricwlwm Newydd, gan Ymgynghorydd Herio GwE, Phil Lord.

Ar 30 Mehefin, Cyhoeddodd y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau y byddai Llywodraeth Cymru'n derbyn, yn llawn, yr holl argymhellion a nodir yn "Dyfodol Llwyddiannus", adolygiad annibynnol yr Athro Graham Donaldson ar y cwricwlwm a threfniadau asesu Cymru.

Fis Gorffennaf 2015, gwnaeth ysgolion ar hyd a lled Cymru gais i fod yn "Ysgol Arloesol". Byddai'r ysgolion hyn yn troi'n weithlu i weithio fel ymateb i'r adroddiad Dyfodol Llwyddiannus.

Byddai'r Ysgolion Arloesol yn cael eu rhannu'n dri grŵp:

- Arloeswyr Cwricwlwm
- Arloeswyr Digidol, ac
- Arloeswyr y Fargen Newydd (gelwir yn Ddysgu Proffesiynol erbyn hyn)

Roedd y Cynllun yn nodi sut i adeiladu cwricwlwm eang, cytbwys, cynhwysol a heriol, ynghyd â'r pedwar pwrpas a oedd wrth ei wraidd, rhoi cyfle i'r holl blant a phobl ifanc i fod yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog – a oedd yn barod i ddysgu trwy gydol eu hoes.
- Cyfranwyr blaengar, creadigol – a oedd yn barod i fod yn rhan lawn o fywyd a gwaith.
- Dinasyddion moesegol, cydwybodol – a oedd yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.
- Unigolion iach, hyderus - a oedd yn barod i fyw bywydau boddhaus yn aelodau gwerthfawr i gymdeithas.

Byddai'r cwricwlwm newydd yn uchelgeisiol ond hefyd yn realistig. I sicrhau hynny, byddai Ysgolion Arloesol yn gweithio mewn partneriaeth glos gyda'u clystyrau (gan gynnwys y sector na chynhelir), a'r rhwydweithiau ehangach a thu hwnt er mwyn sicrhau bod cymaint o'n hysgolion â phosib' yn rhan o'r broses gynllunio a datblygu.

### Strwythur y Cwricwlwm

Chwe maes dysgu a phrofiad:

- Y Celfyddydau Mynegol
- Iechyd a lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu



- Mathemateg a rhifedd, a
- Gwyddoniaeth a thechnoleg

Tri chyfrifoldeb traws-gwricwlwm:

- Cymhwysedd digidol
- Llythrennedd
- Rhifedd

Byddai'r cwricwlwm i ysgolion yn cael ei gynllunio i helpu pob plentyn a pherson ifanc i ddatblygu mewn perthynas â dibenion clir y cytunwyd arnynt. Byddai'r dibenion yn cael eu llunio i ddylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniadau ynglŷn â'r cwricwlwm, addysgu ac asesu.

I ategu'r gwaith, nodwyd 4 egwyddor allweddol er mwyn gallu gweithredu'r cwricwlwm newydd. Byddai rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith:

- Wedi'i arwain gan dystiolaeth, ac ar sail sybsidiaredd
- Yn uchelgeisiol ac yn gynhwysol
- Yn rheoladwy, yn sydyn, gyda brwdfrydedd ac yn broffesiynol, ac
- Yn unedig.

Byddai angen i bob Ysgol Arloesol, heb ystyried eu prif ffocws (Digidol, Cwricwlwm a/neu'r Fargen Newydd), weithio'n agos gyda'i gilydd i herio'r naill a'r llall a dysgu ganddynt. Gyda'i gilydd, byddent yn galluogi i'r cwricwlwm newydd gael ei weithredu ar draws Cymru, gan gynnwys cefnogaeth barhaus sydd o safon uchel i ddatblygu eu sgiliau addysgu ac arwain.

***PENDERFYNWYD*** bod y Pwyllgor yn nodi'r cyflwyniad.

## **6 CYSAG – ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2015-16**

Cyfeiriodd Ymgynghorydd Her GwE at yr adroddiad a ddisbarthwyd yn flaenorol ac eglurodd nad swyddogaeth y Pwyllgor oedd trafod cynnwys yr adroddiad ond cytuno ei fod yn adlewyrchiad cywir o'r hyn a oedd wedi cael ei ystyried yn ystod y flwyddyn flaenorol.

***PENDERFYNWYD*** derbyn Adroddiad Blynyddol Drafft 2015-16 a nodi'r cynnwys.

## **7 YMARFERYDD ARWEINIOL – CEFNOGI'R MANYLEBAU TGAU NEWYDD**

Cyflwynodd Ymgynghorydd Her GwE ddiweddariad ar lafar o raglen yr ymarferydd arweiniol a sut roedd yn berthnasol i arholiadau Astudiaethau Crefyddol.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer consortia lleol i gefnogi rhoi'r TGAU newydd ar waith. Roedd GwE wedi comisiynu 3 athro ar draws Gogledd Cymru i gefnogi'r fenter hon.

***PENDERFYNWYD*** bod y Pwyllgor yn derbyn y diweddariad ar lafar.

## **8 CYSAG A CHYDWEITHREDIAD O YSGOL I YSGOL**

Rhoddodd Ymgynghorydd Herio GwE ddiweddariad ar lafar ar y digwyddiad hyfforddi a'r ffordd ymlaen.

Anogwyd ysgolion i weithio ar y cyd ag ysgolion eraill i gefnogi a datblygu pob maes o fewn y cwricwlwm. Cyfarfu 50 o ysgolion ym mis Mehefin a Gorffennaf i dderbyn hyfforddiant ar y tri sgil craidd yn y maes llafur y cytunwyd arno.

Roedd ysgolion yn gobeithio y byddai adnodd yn cael ei greu ac y byddai'r holl wybodaeth o'r sesiynau hyfforddi ar gael yn genedlaethol ac ar y Canolbwynt Cymreig.

Dywedodd Ymgynghorydd Herio GwE y gallai fod ar ffurf ysgrifenedig a bod posibl iddo gael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf CYSAG.

**PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor yn derbyn y diweddariad ar lafar.

## **9 CCYSAGC**

### **Cofnodion CCYSAGC – 23 Mehefin 2016**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAG Cymru (CCYSAGC) a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2016 (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn Sir Ddinbych er gwybodaeth i'r Aelodau.

Gofynnwyd bod cynrychiolydd Dyneiddiol yn cael gwahoddiad i gyfarfod CYSAG yn y dyfodol. Cytunodd Ymgynghorydd Heriol GwE i anfon gwahoddiad.

**PENDERFYNWYD** derbyn a nodi cofnodion cyfarfod CCYSAGC a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2016.

## **10 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Mae cyfarfod nesaf CYSAG Sir Ddinbych wedi'i drefnu ar gyfer 13 Chwefror 2017. Lleoliad i'w gadarnhau gan fod Aelodau wedi gofyn i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Ysgol Uwchradd Dinbych. Cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Herio y byddai'n cysylltu â'r ysgol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.55 a.m.**

<b>Cyngor Sir Ddinbych</b> <b>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol</b> <b>(CYSAG)</b>		
Dyddiad y Cyfarfod:		<b>13 Chwefror 2017</b>
Eitem ar y Rhaglen:	<b>5</b>	<b>Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygu</b>
<u>Cefndir yr Adroddiad:</u>		
<p>Mae'n ddyletswydd statudol ar CYSAG i fonitro darpariaeth Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd mewn ysgolion. Mae ganddyn nhw draddodiad hir o dderbyn a dadansoddi adroddiadau arolygon Estyn ym mhob cyfarfod.</p>		
<u>Pwrpas yr Adroddiad:</u>		
<p>Rhoi gwybod i aelodau am ganlyniadau Adroddiadau Arolygon diweddar Estyn ar ysgolion.</p>		
<u>Argymhellion:</u>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Derbyn yr adroddiad</li> <li>▪ Anfon llythyr i bob ysgol i roi gwybod iddyn nhw bod adroddiad o'u harolwg wedi ei ystyried, i'w llongyfarch am yr elfennau da a nodwyd, ac i'w hatgoffa bod yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol a'r Swyddogion Gwella Ysgolion ar gael i gynorthwyo gydag unrhyw faes sydd angen ei ddatblygu neu unrhyw fater sydd angen mynd i'r afael ag o.</li> <li>▪ Gofyn i'r Awdurdod Lleol ddisbarthu'r llythyrau i'r ysgolion perthnasol.</li> </ul>		

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygu CYSAG Sir Ddinbych

### Gwanwyn 2017

(Adroddiadau a gyhoeddwyd yn nhymor yr Hydref)

3 ysgol

Ysgol	Dyddiadau	Arolygydd sy'n Adrodd
<b>Ysgol y Santes Ffraid</b>	<b>Mai 2016</b>	<b>Vaughan Williams</b>
<p><i>Mae Ysgol y Santes Ffraid yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir wedi'i lleoli yn awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 19 mlwydd oed. Mae nifer y disgyblion wedi cynyddu oddeutu 4% ers i'r ysgol dderbyn arolwg yn 2010. Mae 510 disgybl ar y gofrestr ar hyn o bryd gyda 83 o'r rheini yn y chweched dosbarth o gymharu â 491 yn ystod yr arolwg diwethaf pan oedd 58 yn y chweched dosbarth. Mae 149 disgybl yn yr adran gynradd. Mae'r ysgol wedi'i lleoli ar gyrion Dinbych mewn lleoliad gweledig deniadol iawn. Mae'n gwasanaethu dalgylch mawr iawn sy'n ymestyn o Landudno yn y Gorllewin hyd at Ffiniau Cymru yn y Dwyrain, a thu hwnt i Ruthun yn y De.</i></p>		
<b>Ysgol Plas Brondyffryn</b>	<b>Gorffennaf 2016</b>	<b>Anthony Mulcahy</b>
<p><i>Ysgol Arbennig sy'n eiddo i'r awdurdod lleol a gynhelir gan Gyngor Sir Ddinbych yw Ysgol Plas Brondyffryn. Mae'r ysgol yn darparu lleoliadau dydd a phreswyl ar gyfer disgyblion awtistig rhwng 3 a 19 mlwydd oed. Mae'r disgyblion yn dod o Sir Ddinbych gyfan, yn ogystal ag awdurdodau lleol cyfagos ar draws Rhanbarth Gogledd Cymru. Mae'r ysgol wedi'i lleoli ar dri safle yn nhref Dinbych. Mae 67 disgybl uwchradd yn y prif safle ar Lôn Parc, 37 disgybl yn y lleoliad cynradd ar Ffordd Y Rhyl ac 19 disgybl uwchradd gydag anghenion mwy cymhleth yn Nhŷ'r Ysgol ar Ffordd Nantglyn. Mae'r ddarpariaeth breswyl wedi'i lleoli gerllaw Tŷ'r Ysgol.</i></p>		
<b>Ysgol Dewi Sant</b>	<b>Medi 2016</b>	<b>Kevin Davies</b>
<p><i>Mae Ysgol Dewi Sant wedi'i lleoli ger tref Y Rhyl a chaiff ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae 544 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng 3 ac 11 mlwydd oed, gan gynnwys 66 o ddisgyblion rhan-amser yn y feithrinfa. Mae'r disgyblion wedi'u rhannu rhwng 20 o ddosbarthiadau oedran cymysg a Chymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol. Mae oddeutu 38% o ddisgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Mae oddeutu 13% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan 23% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys nifer fach o ddisgyblion sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig. Ychydig iawn o ddisgyblion a ddaw o gefndir lleiafrifoedd ethnig neu gymysg.</i></p>		

## SYLWADAU

### Perfformiad Cyfredol:

#### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r Canlyniadau?

##### Safonau

- 

##### Lles:

- Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gofalu ac yn pryderu am ei gilydd. Er enghraifft, mae'r disgyblion iau yn gweddïo dros y disgyblion hŷn sy'n sefyll arholiadau. (Ysgol y Santes Ffraid)

#### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

### **Profiadau dysgu:**

- Mae'r ysgol yn gwneud cyfraniad llwyddiannus at ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang drwy weithio ag amryw o asiantaethau allanol megis 'Wateraid' ac Asiantaeth Gatholig ar gyfer Datblygu Tramor. Mae'r mwyafrif o bynciau a'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu disgyblion a sicrhau eu bod yn ddinasyddion cyfrifol o fewn eu cymunedau. (Ysgol y Santes Ffraid)
- Mae gan ddisgyblion gyfleoedd gwyb i ddysgu am gynaliadwyedd ac mae hyn yn effeithiol drwy roi cymorth iddynt ddeall eu rôlau fel dinasyddion byd-eang. Cysylltiadau rhyngwladol cryf. Mae adroddiad ar Ysgol Plas Brondyffryn a dathliadau aml ddiwylliant yn gwella dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill. Mae'r cysylltiadau hyn hefyd yn galluogi i staff rannu arferion da ag athrawon o wledydd eraill. (Ysgol Plas Brondyffryn)
- Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr sy'n cwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytunedig ar gyfer addysg grefyddol. (Ysgol Dewi Sant)
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o faterion yn ymwneud â datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn briodol . Mae'r cyngor eco yn hyrwyddo gwaith cynaliadwyedd ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddealltwriaeth disgyblion o'r angen i arbed egni a dŵr. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i'r disgyblion ddysgu am y byd ehangach yn gyfyngedig. (Ysgol Dewi Sant)

### **Gofal, cymorth ac arweiniad:**

- Mae gan yr ysgol raglen addysg bersonol a chymdeithasol effeithiol sydd ag effaith bositif ar iechyd a lles disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r trefniadau ar gyfer gofal bugeiliol a'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol wedi bod o gymorth i ddatblygu ymdeimlad cryf o gymuned yn yr ysgol. Mae gwaith Lluoedd y Cadetiaid Cyfun a'r Gaplaniaeth yn rhai o gryfderau penodol yr ysgol. Maent yn cael effaith fuddiol ar ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol bywydau'r disgyblion. (Ysgol y Santes Ffraid)
- Mae trefniadau effeithiol i hyrwyddo datblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion drwy'r cwricwlwm a gwasanaethau pryfoclyd ar faterion moesol. Mae'r rhain yn cael effaith arwyddocaol ar hyder a hunan-barch y disgyblion. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus drwy ystod eang o weithgareddau megis ymweliadau preswyl a dysgu am fywydau artistiaid megis Vincent van Gogh. (Ysgol Plas Brondyffryn)
- Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol. Mae'r ethos o ofal a

chefnogaeth ar gyfer disgyblion diamddiffyn yn nodwedd amlwg o'i darpariaeth. (Ysgol Dewi Sant)

### **Yr Amgylchedd Dysgu:**

- Mae Ysgol y Santes Ffraid yn ysgol hapus sydd ag awyrgylch teuluol cryf ac ethos ofalgar a chynhwysol yn seiliedig ar gymeriad crefyddol. Gwerthoedd yr ysgol yw 'Ysbrydoli a chael ei ysbrydoli trwy Barch, Cariad, Ffydd, Gwirionedd a Rhagoriaeth'. Mae bron pob un o'r staff, disgyblion a rhieni yn rhannu'r gwerthoedd hyn. Caiff hyn ei atgyfnerthu gan y digwyddiadau poblogaidd a drefnir gan y gaplaniaeth a'r gwasanaethau a gynhelir yng nghapel yr ysgol. (Ysgol y Santes Ffraid)
- Mae'r ysgol yn aml yn gwneud defnydd da o weithredoedd addoli ar y cyd i ddathlu llwyddiannau disgyblion unigol ac i addysgu'r disgyblion am ystod eang o ddiwylliannau a thraddodiadau. (Ysgol Plas Brondyffryn)
- Mae gan yr ysgol ethos groesawgar, cynhwysol a chyfeillgar ac mae pob disgybl yn cael ei drin yn gyfartal. Mae'r staff yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr sy'n sicrhau bod disgyblion yn derbyn ystod o brofiadau buddiol tu fewn a thu allan i'r ysgol. Rhoddir sylw priodol i oddefgarwch a chydreddoldeb hil yng ngwasanaethau boreol sydd â themâu penodol. Annogir disgyblion i fod yn gwrtais a chefnogi'r gymuned leol ac elusennau'n rheolaidd. (Ysgol Dewi Sant)

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



<b>Cyngor Sir Ddinbych</b> <b>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol</b> <b>(CYSAG)</b>		
Dyddiad y Cyfarfod:		<b>13 Chwefror 2017</b>
Eitem ar y Rhaglen:	<b>6</b>	<b>Canlyniadau Arholiadau 2016</b>
<u>Cefndir yr Adroddiad:</u> Mae'r adroddiad yn cynnwys canlyniadau manwl arholiadau Addysg Grefyddol TGAU a Lefel Uwch ar gyfer 2015 a 2016, ynghyd â dadansoddiad o'r gwahaniaethau a'r tueddiadau.		
<u>Pwrpas yr Adroddiad:</u> Er mwyn i'r aelodau allu arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â'u dyletswydd statudol i fonitro darpariaeth Addysg Grefyddol mewn ysgolion, ac i gael y wybodaeth lawn am ganlyniadau'r flwyddyn honno.		
<u>Argymhellion:</u>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Derbyn yr adroddiad.</li> <li>• Ystyried unrhyw gamau pellach y gallai fod yn ofynnol</li> </ul>		

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## Crynodeb o ganlyniadau arholiadau 2015-16

### Summary of Examination Results 2015-16

I CYSAG Sir Ddinbych Chewfrror 2017 / For Denbighshire SACRE Spring 2017

Astudiaethau Crefyddol TGAU – Cwrs Llawn / GCSE Religious Studies - Full Course

Yr Holl ymgeiswyr / All candidates:

<b>Ysgol /School</b>	<b>2015</b> <i>Nifer a safodd yr arholiad/ entry</i>	<b>2016</b> <i>Nifer a safodd yr arholiad/ entry</i>	<b>2015</b> <b>A*-C</b> <b>%</b>	<b>2016</b> <b>A*-C</b> <b>%</b>	<b>Gwahaniaeth / Difference %</b>	<b>+/- Cenedlaethol / National 2014</b>
<i>Dinbych/ Denbigh</i>	16	15	93.8%	60%	-33.8%	-18.7%
Glan Clwyd	22	20	77.3%	85%	7.7%	6.3%
Prestatyn	243	199	84.3%	80.9%	-3.4%	2.2%
Dinas Bran	108	70	53.5%	57.1%	3.6%	-21.6%
Brynhyfryd	22	19	86.4%	100%	13.6%	21.3%
<i>Y Rhyl / Rhyl</i>	39	-	45.9%	-	-	-
<i>Ben Ed. Jones / Bl Ed Jones</i>	50	49	68%	67.3%	-0.7%	-11.4%
<i>Santes Ffraid / St Brigids</i>	50	52	100%	94.2%	-5.5%	15.5%
<b>ALI /LA</b>	<b>550</b>	<b>424</b>	<b>73.6%</b>	<b>77.4%</b>	<b>3.8%</b>	<b>-1.3%</b>
<i>Holl Cymru / All Wales</i>	<b>11,167</b>	<b>11,051</b>	<b>75%</b>	<b>78.7%</b>		

Astudiaethau Crefyddol TGAU – Cwrs Byr / GCSE Religious Studies – Short Course

Yr Holl ymgeiswyr / All candidates:

<b>Ysgol /School</b>	<b>2015</b> <i>Nifer a safodd yr arholiad/ entry</i>	<b>2016</b> <i>Nifer a safodd yr arholiad/ entry</i>	<b>2015</b> <b>A*-C</b> <b>%</b>	<b>2016</b> <b>A*-C</b> <b>%</b>	<b>Gwahaniaeth/ Difference %</b>	<b>+/- Cenedlaethol / National 2014</b>
<i>Dinbych/ Denbigh</i>	82	70	53.7%	48.6%	-5.1%	3.2%
Glan Clwyd	-	-	-	-	-	-
Prestatyn	38	61	21.1%	47.5%	26.4%	2.1%
Dinas Bran	22	50	36.4%	2%	-34.4%	-43.4%
Brynhyfryd	1	1	0%	100%	100%	54.6%
<i>Y Rhyl / Rhyl</i>	90	111	4.4%	30.6%	26.2%	-14.8%
<i>Ben Ed. Jones / Bl Ed Jones</i>	52	15	13.5%	13.3%	-0.2%	-32.1%
<i>Santes Ffraid / St Brigids</i>	4	1	50%	0%	-50%	-45.4%
<b>ALI /LA</b>	<b>293</b>	<b>312</b>	<b>25.6%</b>	<b>31.7%</b>	<b>6.1%</b>	<b>-13.7%</b>
<i>Holl Cymru / All Wales</i>	<b>10,098</b>	<b>11,666</b>	<b>52%</b>	<b>45.4%</b>		

Astudiaethau Crefyddol TGAU Safon Uwch/ GCE Religious Studies – A - Level

Yr Holl ymgeiswyr / All candidates:

<b>Ysgol /School</b>	<b>2015 Nifer a safodd yr arholiad/entry</b>	<b>2016 Nifer a safodd yr arholiad/entry</b>	<b>2015 A*-C %</b>	<b>2016 A*-C %</b>	<b>Gwahaniaeth / Difference %</b>	<b>+/- Cenedlaethol / National 2014</b>
Dinbych/ Denbigh	1	7	100%	57.1%	-42.9%	-21.8%
Glan Clwyd	1	4	100%	100%	0%	21.1%
Prestatyn	23	42	73.9%	66.7%	-7.2%	-12.2%
Dinas Bran	2	-	100%	-	-	-
Brynhyfryd	12	8	100%	100%	0%	21.1%
Y Rhyl / Rhyl	-	-	-	-	-	-
Ben Ed. Jones / Bl Ed Jones	-	-	-	-	-	-
Santes Ffraid / St Brigids	12	15	91.7%	93.3%	1.6%	14.4%
ALI /LA	<b>51</b>	<b>76</b>	<b>86.3%</b>	<b>76.3%</b>	<b>-7.4%</b>	<b>-2.6%</b>
Holl Cymru / All Wales	<b>1444</b>	<b>1446</b>	<b>81%</b>	<b>78.9%</b>		

*Cymharu canlyniadau â'r cyfartaledd cenedlaethol / Results Comparison to National Average*

<b>Cwrs Llawn / Full Course A* - C</b>												
	<b>2005</b>	<b>2006</b>	<b>2007</b>	<b>2008</b>	<b>2009</b>	<b>2010</b>	<b>2011</b>	<b>2012</b>	<b>2013</b>	<b>2014</b>	<b>2015</b>	<b>2016</b>
Dinbych/ Denbigh	61.2%	67.9%	42.9%	70.6%	72.7%	67.4	77.8	72.0	66.7	77.8	93.8	60
Glan Clwyd	54.6%	63.6%	100%	68.8%	91.7%	50.0	81.8	100	88.9.	80.0	77.3	85
Prestatyn	65.4%	81.9%	75.5%	77.3%	89.5%	78.7	89.7	84.2	70.1	82.3	84.3	80.9
Dinas Bran	44.4%	72.7%	0.0%	100%	100%	50.0	87.2	70.8	70.0	78.8	53.5	57.1
Brynhyfryd	40.0%	66.7%	100%	100%	100%	81.0	86.9	94.0	95.2	93.8	86.4	100
Y Rhyl / Rhyl	60.0%	0.0%	100%	100%	100%	--	88.9	84.7	100.0	54.8	45.9	-
Ben Ed. Jones / Bl Ed Jones	41.9%	22.4%	39.1%	55.8%	40.7%	52.3	53.2	72.2	-	-	68	67.3
Santes Ffraid / St Brigids	95.7%	98.0%	----	97.9%	95.5%	94.5	100	98.1	96.2	100	100	94.2
<b>Nat. Average</b>	<b>70.2%</b>	<b>73.7%</b>	<b>71.1%</b>	<b>72.0%</b>	<b>71.9%</b>	<b>74.3</b>	<b>72.9</b>	<b>73.6</b>	<b>73</b>	<b>72</b>	<b>75</b>	<b>78.7</b>
<b>Cwrs Byr / Short Course A* - C</b>												
	<b>2005</b>	<b>2006</b>	<b>2007</b>	<b>2008</b>	<b>2009</b>	<b>2010</b>	<b>2011</b>	<b>2012</b>	<b>2013</b>	<b>2014</b>	<b>2015</b>	<b>2016</b>
Dinbych/ Denbigh	70.6%	65.9%	51.8%	58.6%	40.8%	26.0	29.1	32.3	51.3	100.0	53.7	48.6
Glan Clwyd	N/A	N/A	53.3%	64.7%	84.0%	--	--	--	-	-	-	-
Prestatyn	20.0%	42.9%	28.6%	14.3%	9.5%	--	2.2	7.0	14.7	-	21.1	47.5
Dinas Bran	32.9%	28.3%	60.6%	28.3%	80.0%	77.6	29.1	0.0	30.8	100.0	36.4	2
Brynhyfryd	N/A	N/A	N/A	100%	100%	--	0.0	0.0	-	-	0	100
Y Rhyl / Rhyl	60.6%	46.8%	23.8%	33.0%	46.6%	19.0	21.5	20.2	30.7	-	4.4	30.6



*Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 1*  
Denbighshire Schools – Table 1

**CANLYNIADAU TAGAU 2016: PAWB – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL**  
**GCSE RESULTS 2016: ALL – RELIGIOUS STUDIES**

Key Stage 4 Religious Studies Results 2016																											ALL PUPILS			
GCSE Full Course			Analysis By Grade																						Pass Percentages					
			A*		A		B		C		D		E		F		G		U		X		Total Entries		A*-A		A*-C		A*-G	
ALI / LA	Rhif yr Ysgol / School I	Enw'r Ysgol / School Name	No	%	No	%	No	%	No	%	No	%	No	%	No	%	No	%	No	%	No	%	No	%	No	%	No	%		
663	6634003	Rhyl High School	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0
663	6634014	Prestatyn High School	13	6.5	42	21.1	57	28.6	49	24.6	16	8.0	12	6.0	8	4.0	2	1.0	0	0.0	0	0.0	199	100.0	55	27.6	161	80.9	199	100.0
663	6634020	Ysgol Uwchradd Glan Clwyd	3	15.0	1	5.0	8	40.0	5	25.0	1	5.0	2	10.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	20	100.0	4	20.0	17	85.0	20	100.0
663	6634026	Denbigh High School	0	0.0	3	20.0	3	20.0	3	20.0	0	0.0	4	26.7	1	6.7	1	6.7	0	0.0	0	0.0	15	100.0	3	20.0	9	60.0	15	100.0
663	6634027	Ysgol Dinas Bran	4	5.7	10	14.3	13	18.6	13	18.6	12	17.1	12	17.1	5	7.1	1	1.4	0	0.0	0	0.0	70	100.0	14	20.0	40	57.1	70	100.0
663	6634031	Ysgol Brynhyfryd	8	42.1	6	31.6	5	26.3	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	19	100.0	14	73.7	19	100.0	19	100.0
663	6634601	Blessed Edward Jones High School	0	0.0	7	14.3	13	26.5	13	26.5	3	6.1	7	14.3	5	10.2	1	2.0	0	0.0	0	0.0	49	100.0	7	14.3	33	67.3	49	100.0
663	6635901	St Brigid's School	10	19.2	20	38.5	16	30.8	3	5.8	3	5.8	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	52	100.0	30	57.7	49	94.2	52	100.0
	663	Denbighshire	38	9.0	89	21.0	115	27.1	86	20.3	35	8.3	37	8.7	19	4.5	5	1.2	0	0.0	0	0.0	424	100.0	127	30.0	328	77.4	424	100.0
<b>All Pupils</b>		11,051	9.4		18.4		23.8		20.4		9.3		7.7		5.4		3.3								33.8		78.7		98.8	

*Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 2*  
Denbighshire Schools – Table 2

**CANLYNIADAU TAGAU 2015: PAWB – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL**  
**GCSE RESULTS 2015: ALL – RELIGIOUS STUDIES**

<i>Ysgolion Schools</i>	<i>Cyfanswm /Totals</i>	<i>A*</i>	<i>%</i>	<i>A</i>	<i>%</i>	<i>B</i>	<i>%</i>	<i>C</i>	<i>%</i>	<i>D</i>	<i>%</i>	<i>E</i>	<i>%</i>	<i>F</i>	<i>%</i>	<i>G</i>	<i>%</i>	<i>U</i>	<i>%</i>	<i>% A* - C</i>	<i>% A* - G</i>
<i>Dinbych Denbigh</i>	16	1	6.3%	8	50.0%	4	25.0%	2	12.5%	1	6.3%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	<b>93.8</b>	<b>100</b>
<i>Glan Clwyd</i>	22	4	18.2%	6	27.3%	3	13.6%	4	18.2%	3	13.6%	0	0.0%	2	9.1%	0	0.0%	0	0.0%	<b>77.3</b>	<b>100</b>
<i>Prestatyn</i>	243	14	5.8%	49	20.2%	79	32.5%	57	23.5%	25	10.3%	9	3.7%	4	1.6%	4	1.6%	1	0.4%	<b>87.9</b>	<b>99.2</b>
<i>Dinas Bran</i>	108	6	5.6%	6	5.6%	20	18.5%	23	21.3%	26	24.1%	15	13.9%	5	4.6%	4	3.7%	3	2.8%	<b>50.9</b>	<b>97.2</b>
<i>Brynhyfryd</i>	22	4	18.2%	9	40.9%	3	13.6%	3	13.6%	1	4.5%	2	9.1%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	<b>86.4</b>	<b>100</b>
<i>Y Rhyd/ Rhyl</i>	39	0	0.0%	1	2.6%	7	17.9%	9	23.1%	9	23.1%	11	28.2%	1	2.6%	1	2.6%	0	0.0%	<b>43.6</b>	<b>100</b>
<i>Den Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	50	0	0.0%	7	14.0%	13	26.0%	14	28.0%	9	18.0%	3	6.0%	2	4.0%	1	2.0%	1	2.0%	<b>68</b>	<b>98</b>
<i>Saint Ffraid/ Strydys</i>	50	13	26.0%	15	30.0%	19	38.0%	2	4.0%	1	0.2%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	<b>98</b>	<b>100</b>
<b><i>Cyfanswm AALI/ LA Totals</i></b>	550	42	7.6%	101	18.4%	148	26.9%	114	20.7%	74	13.5%	40	7.3%	14	2.5%	10	1.8%	5	0.9%	<b>73.6</b>	<b>99.6</b>
<b><i>Holl Cymru All Wales</i></b>	<b>11,167</b>		<b>11</b>		<b>19</b>		<b>24</b>		<b>20</b>		<b>9</b>		<b>7</b>		<b>4</b>		<b>3</b>		<b>2</b>	<b>75</b>	<b>98</b>



Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 3  
Denbighshire Schools – Table 3

CANLYDIADAU TGAU 2016 PAWB – ASTUDIAETHAU GREFYDDOL: CWRS BYR  
GCSE RESULTS 2016: ALL – RELIGIOUS EDUCATION SHORT COURSE

Key Stage 4 Religious Studies Results 2016																											ALL PUPILS				
GCSE Short Course			Analysis By Grade																							Pass Percentages					
			A*		A		B		C		D		E		F		G		U		X		Total Entries		A*-A		A*-C		A*-G		
AL / LA	Rhif yr Ysgol / School ID	Enw'r Ysgol / School Name	No	%	No	%	No	%	No	%	No	%	No	%	No	%	No	%	No	%	No	%	No	%	No	%	No	%			
663	6634003	Rhyl High School	1	0.9	7	6.3	14	12.6	12	10.8	18	16.2	26	23.4	8	7.2	8	7.2	12	10.8	5	4.5	111	100.0	8	7.2	34	30.6	94	84.7	
663	6634014	Prestatyn High School	0	0.0	0	0.0	6	9.8	23	37.7	5	8.2	7	11.5	13	21.3	2	3.3	3	4.9	2	3.3	61	100.0	0	0.0	29	47.5	56	91.8	
663	6634020	Ysgol Uwchradd Glan Clwyd	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	
663	6634026	Denbigh High School	0	0.0	7	10.0	9	12.9	18	25.7	11	15.7	11	15.7	6	8.6	5	7.1	2	2.9	1	1.4	70	100.0	7	10.0	34	48.6	67	95.7	
663	6634027	Ysgol Dinas Bran	0	0.0	0	0.0	0	0.0	1	2.0	0	0.0	3	6.0	10	20.0	15	30.0	18	36.0	3	6.0	50	100.0	0	0.0	1	2.0	29	58.0	
663	6634031	Ysgol Brynhyfryd	0	0.0	0	0.0	0	0.0	1	100.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	1	100.0	0	0.0	1	100.0	1	100.0	
663	6634601	Blessed Edward Jones High School	0	0.0	0	0.0	0	0.0	2	13.3	1	6.7	2	13.3	4	26.7	3	20.0	2	13.3	1	6.7	15	100.0	0	0.0	2	13.3	12	80.0	
663	6635901	St Brigid's School	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	1	100.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	1	100.0	0	0.0	0	0.0	1	100.0	
	663	Denbighshire	1	0.3	14	4.5	28	9.0	56	17.9	37	11.9	49	15.7	43	13.8	33	10.6	37	11.9	14	4.5	312	100.0	15	4.8	99	31.7	261	83.7	
<b>All Pupils</b>			11,666		3.6		7.8		13.6		20.4		12.6		12.6		11.1		8.9						11.4		45.4		90.6		

*Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 4*  
Denbighshire Schools – Table 4

**CANLYDIADAU TGAU 2015 PAWB – ASTUDIAETHAU GREFYDDOL: CWRS BYR**  
**GCSE RESULTS 2015: ALL – RELIGIOUS EDUCATION SHORT COURSE**

<i>Ysgolion Schools</i>	<i>Cyfanswm /Totals</i>	A*	%	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	F	%	G	%	U	%	% A* - C	% A* - G
<i>Dinbych Denbigh</i>	82	5	6.1%	5	6.1%	18	22.0%	16	19.5%	11	13.4%	18	22.0%	6	7.3%	2	2.4%	1	1.2%	53.7	98.8
<i>Glan Clwyd</i>	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
<i>Prestatyn</i>	38	1	2.6%	0	0	1	2.6%	6	15.8%	0	0	2	5.3%	8	21.1%	11	28.9%	5	13.2%	21.1	76.3
<i>Dinas Bran</i>	22	0	0	0	0	1	4.5%	7	31.8%	1	4.5%	6	27.3%	4	18.2%	3	13.6%	0	0	36.4	100
<i>Brynhyfryd</i>	1	0	0	0	0	0	0	0	0	1	100.0%	0	0	0	0	0	0	0	0	0	100
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>	90	0	0	0	0	0	0	4	4.4%	6	6.7%	11	12.2%	17	18.9%	16	17.8%	34	37.8%	4.4	60
<i>Bla Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	52	0	0	0	0	2	3.8%	5	9.6%	7	13.5%	14	26.9%	9	17.3%	8	15.4%	6	11.5%	13.5	86.5
<i>Santes Gwladys/St Brigids</i>	4	0	0	0	0	1	25.0%	1	25.0%	1	25.0%	1	25.0%	0	0	0	0	0	0	50	100
<i>Cyfanswm AALL/ LA Totals</i>	<b>293</b>	<b>6</b>	<b>2.0%</b>	<b>5</b>	<b>1.7%</b>	<b>24</b>	<b>8.2%</b>	<b>40</b>	<b>13.7%</b>	<b>27</b>	<b>9.2%</b>	<b>52</b>	<b>17.7%</b>	<b>45</b>	<b>15.4%</b>	<b>40</b>	<b>13.7%</b>	<b>46</b>	<b>15.7%</b>	<b>25.6</b>	<b>81.6</b>
<i>Holl Cymru All Wales</i>	<b>10,098</b>		<b>4</b>		<b>10</b>		<b>17</b>		<b>21</b>		<b>14</b>		<b>12</b>		<b>9</b>		<b>6</b>		<b>7</b>	<b>52</b>	<b>93</b>

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 5 – CANLYNIADAU SAFON UWCH 2016 – PAWB ASTUDIAETHAU CREFYDDOL  
**Denbighshire Schools – Table 5 GCE ADVANCED LEVEL RESULTS 2016: ALL – RELIGIOUS STUDIES**

Key Stage 5 Religious Studies Results 2016 (Final)																								ALL PUPILS		
A Level			Analysis By Grade																		Pass Percentages					
			A*		A		B		C		D		E		U		X		Total Entries		A*-A		A*-C		A*-E	
ALI / LA	Rhif yr Ysgol / School I	Enw'r Ysgol / School Name	No	%	No	%	No	%	No	%	No	%	No	%	No	%	No	%	No	%	No	%	No	%		
663	6634014	Prestatyn High School	0	0.0	2	4.8	14	33.3	12	28.6	11	26.2	3	7.1	0	0.0	0	0.0	42	100.0	2	4.8	28	66.7	42	100.0
663	6634020	Ysgol Uwchradd Glan Clwyd	2	50.0	0	0.0	2	50.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	4	100.0	2	50.0	4	100.0	4	100.0
